Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Caban Bach - Barnardo's**

**Ymbarel Barnardo's**
**Rhes Meirion**
**Blaenau Ffestiniog**
**LL41 3UA**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

24/02/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Caban Bach - Barnardo's

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Barnardo's |
| Lleoedd cofrestredig | 43 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Mawrth 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac mae’n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Yr Amgylchedd** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Nid oes angen sgôr** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae gan blant gyfleoedd da i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae ganddynt ystod o weithgareddau diddorol i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu. Maent yn rhyngweithio'n eithriadol o dda ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn fodelau rôl da ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac amrywiol i sicrhau bod y plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda. Yn dilyn yr ymweliad arolygu diwethaf, aethpwyd i'r afael â'r angen i wella o ran sicrhau bod gan o leiaf un aelod o staff dystysgrif bediatrig cymorth cyntaf cyfredol tra'n gofalu am blant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn lân ac yn darparu digon o le ac adnoddau amrywiol o ansawdd da i hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygu plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth weledigaeth glir ac maent yn sicrhau bod staff yn gymwys, yn brofiadol ac yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd gofal ac mae ganddynt bartneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach er budd y plant.

| Llesiant | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae gan y plant gyfleoedd da i ddewis drostyn nhw eu hunain a chwarae gyda'r hyn maen nhw ei eisiau a gyda phwy. Gwerthfawrogir yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud a gweithredir arno. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn i'r plant ble yr hoffent wrando ar eu stori ac mae'r plant yn penderfynu ble y dylid gosod y mat darllen. Mae'r plant yn gyflym i ddweud wrthym beth maent yn hoffi ei wneud yn y feithrinfa a chael cyfle i leisio eu dewis o weithgareddau yn ystod amser cylch.

Clywir y plant yn sgwrsio'n naturiol â'r staff ac maent yn eistedd yn hapus ar eu gliniau pan fyddant am gael cysur. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn fodlon dilyn y drefn ddyddiol. Er enghraifft, heb ffwdan, maent i gyd yn ymolchi eu dwylo cyn bwyta'u cinio. Mae'r gan y plant perthnasoedd agos gyda'i gilydd a'r staff. Er enghraifft, pan fydd plentyn yn teimlo bod ei ddillad yn llaith ar ôl ymolchi dwylo, mae ffrindiau'n cydymdeimlo ac mae'r staff yn newid y plentyn yn gyflym i ddillad sych. Mae hyn yn arwain at blentyn hynod o hapus sy'n dangos ei ddillad newydd yn falch, ac mae'r plentyn yn dweud ei fod yn eu hoffi llawer.

Mae plant yn deall yn glir sut i ryngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r staff. Maent yn dweud llawer o bethau braf wrth eu ffrindiau yn ystod ein hymweliad. Ar un achlysur, maent yn newid yn gyflym o siarad eu mamiaith i'w hail iaith ac yn dweud yn ystyrlon wrth ffrind 'Rwy'n caru dy wallt a dy ffrog'. Mae hyn yn dangos pa mor dda y mae plant yn parchu diwylliant a theimladau ei gilydd. Mae'r plant yn galw draw'n llawen at eu ffrindiau i ddod i chwarae ac yn gwneud lle iddynt eistedd i lawr. Daw rhannu a chymryd eu tro yn naturiol iddynt ac mae'r chwarae'n hapus ac yn hwyl.

Mae'r plant yn egnïol ac maent yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn canu 'Lliwiau'r Enfys' yn gywir wrth iddynt bwyntio at liwiau gwahanol ar degan maent yn chwarae gydag ef. Maent yn dysgu gwahanol adegau o'r dydd a, phan ofynnir iddynt, maent yn dweud wrth y staff yn gyflym ei bod hi'n brynhawn gan eu bod newydd fwyta eu cinio. Mae cryn ddathlu pan fyddant gwybod yr ateb ac mae'r plant yn ymateb yn falch gyda gwên lydan.

Mae'r plant yn dysgu i fod yn annibynnol. Maent yn defnyddio'r toiled ar eu pen eu hunain ac maent yn mwynhau gwisgo'r dillad gwisgo i fyny gwahanol i chwarae. Mae'r plant yn trefnu gêm o guddio ac yn cymryd tro yn hapus i fod yn chwilio. Maent yn cael llawer o hwyl yn creu straeon ac yn llenwi bag bach i fynd ar daith ac eistedd gyda'i gilydd yn esgus gyrru. Mae gan y plant ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith trwy'r sgyrsiau niferus maent yn eu cael gyda'i gilydd a chyda'r staff.

| **Gofal a Datblygiad** | **Nid oes angen sgôr** |
|---|---|

Mae’r staff yn deall eu rôl wrth gadw plant yn ddiogel. Maent yn dilyn gweithdrefnau COVID-19 ac yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon ynghylch diogelwch plentyn. Yn gyffredinol mae tystysgrif cymorth cyntaf briodol gan o leiaf un aelod o staff sy’n gofalu am y plant. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn ystod ein hymweliad. Gan ei fod yn faes i’w wella; cafwyd cadarnhad ysgrifenedig yn dilyn yr arolygiad a nododd y byddai gan o leiaf un aelod o staff dystysgrif gyfredol ar gyfer cymorth cyntaf pediatrig wrth ofalu am y plant bob dydd.

Mae'r staff yn cadw cofnodion dyddiol o bresenoldeb, damweiniau a digwyddiadau. Er y cysylltir â'r rhieni os yw eu plentyn yn cael anaf i'w ben, nid oedd hyn yn cael ei gofnodi bob amser. Mae’r staff yn hybu iechyd a hylendid da. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael byrbrydau iach, diodydd o ddŵr a chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored. Maent yn gwisgo dillad diogelwch i newid cewynnau yn unol â chanllawiau rheoli heintiau. Mae'r staff a'r plant yn cwblhau ymarferion tân er mwyn iddynt wybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae’r staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn eu canmol yn ystyrlon. Er enghraifft, maent yn cymeradwyo’r plant am eu hatebion yn ystod amser cylch ac yn eu hannog i longyfarch eu hunain. Mae'r staff yn dangos parch a charedigrwydd tuag at y plant yn ystod ein hymweliad ac maent yn fodelau rôl da. Maent yn atgoffa'r plant i ddangos cwrteisi gan ddweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’ ac maent yn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi cyfarwyddiadau clir fel bod y plant yn eu deall.

Mae’r staff yn defnyddio eu harsylwadau ac yn cadw cofnodion ysgrifenedig o gynnydd y plant er mwyn cynllunio eu camau datblygu nesaf. Maent yn cynllunio gweithgareddau bob tymor gyda ffocws ar blant yn dysgu am liwiau yn ystod yr wythnosau nesaf. Er enghraifft, roedd rhai o'r gweithgareddau dysgu a gynlluniwyd yn cynnwys gwneud jeli melyn a chwilio am anifeiliaid lliw yn y jeli. Mae'n hyfryd gweld y staff yn gwerthfawrogi'r plant yn cael hwyl pan fyddant yn galw'r arweinydd yn ôl enw gwahanol yn ystod amser cylch. Maent i gyd yn chwerthin wrth rannu jôc gyda'i gilydd, gan wneud y foment yn un arbennig i’w gofio. Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tîm i ddiwallu holl anghenion y plant yn llwyddiannus.

| Yr Amgylchedd | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y safle yn lân ac yn ddiogel. Mae'r drysau allanol wedi'u cloi ac mae'r ardal chwarae tu allan yn amgaeedig sy'n cadw'r safle yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod. Gofynnir i ymwelwyr ddilyn gweithdrefnau Covid-19 i sicrhau bod haint posibl yn cael ei reoli'n briodol a bod y plant a'r staff yn cael eu diogelu. Mae asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer y safle yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod risgiau posibl i blant yn cael eu dileu lle bo hynny'n bosibl,

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan blant ddigon o le i symud o gwmpas mewn amgylchedd diogel, croesawgar a threfnus sy'n hyrwyddo eu datblygiad. Maent yn sicrhau bod gan blant ymdeimlad o berthyn wrth i'w gwaith crefft gael ei arddangos a bod ganddynt eu pegiau lefel isel eu hunain i hongian eu heitemau personol. Mae cynllun a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth plant ac yn diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, mae ardal newid cewynnau ynghyd â thoiledau lefel isel a chyfleusterau ymolchi dwylo. Mae ardaloedd chwarae a dysgu diddorol sy'n hawdd i'r plant eu cyrraedd. Mae'r ystafelloedd chwarae a'r ardaloedd eraill i gyd yn olau, wedi'u haddurno'n llachar ac wedi'u cynllunio'n dda gydag ystod eang o adnoddau i annog plant i archwilio a dysgu trwy chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan blant ystod eang o adnoddau glân sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r rhain yn annog chwilfrydedd naturiol plant i ddysgu a datblygu trwy chwarae.  Er enghraifft, mae gan y gornel gartref adnoddau da mae'n cynnig cyfleoedd da i'r plant i fod yn ddychmygus wrth chwarae. Mae'r adnoddau ar lefel isel i feithrin annibyniaeth ac mae'r offer naturiol yn hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy.  Trwy gydol y gwasanaeth, mae digon o deganau ac offer addas sy'n briodol i'w hoedran yn cynnal ac yn meithrin diddordeb y plant mewn chwarae a dysgu.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn creu ethos cadarnhaol yn y feithrinfa. Maent wedi sefydlu tîm o staff sydd â rolau a chyfrifoldebau clir ac maent yn darparu gofal o ansawdd i'r plant. Maent yn sicrhau bod yr unigolyn â gofal am y gwasanaeth (yr arweinydd) yn gymwys ac yn ddeallus i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn llyfn o ddydd i ddydd. Mae datganiad o ddiben y feithrinfa yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i rieni i'w galluogi i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas i'w hanghenion hwy a'u plentyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio tuag at ddiwallu rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae'r staff yn rhugl yn yr iaith ac mae bron yr holl bolisïau, gweithdrefnau a gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnal adolygiad o'r feithrinfa'n flynyddol ac yn llunio adroddiad. Roedd yr adborth a dderbyniwyd ac a nodwyd yn yr adroddiad yn gadarnhaol am y gwasanaeth a ddarparwyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig i wneud newidiadau effeithiol sydd o fudd i ddysgu a chwarae'r plant. Er enghraifft, mae'r ardal chwarae tu allan wedi cael ei adnewyddu gyda lloriau diogelu newydd ac mae mwy o welliannau wedi'u cynllunio ar gyfer y ddwy ardal chwarae y tu allan i'r dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cefnogi staff yn eu rolau. Cwblheir hyfforddiant sefydlu pan fydd staff newydd yn dechrau. Mae'r staff yn derbyn cyfarfodydd goruchwylio unigol a gwerthusiadau blynyddol, gan roi cyfleoedd iddynt drafod eu harferion gwaith ac unrhyw faterion yr hoffent eu codi. Cynhelir gwiriadau addasrwydd a chwblheir ffeiliau'r staff, yn ôl y gofyn. Anogir y staff i fynychu hyfforddiant a chyrsiau sy'n berthnasol i oedran y plant y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r staff yn gweithio'n dda iawn fel tîm i sicrhau bod y gofal a ddarperir yn rhedeg yn llyfn. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau eu rolau ac yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol gyda'r rhieni. Maent yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn ddyddiol trwy gyfathrebu ar lafar, a thrwy ddefnyddio ap a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r staff yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol i gefnogi plant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rhieni hefyd yn rhoi manylion i staff am anghenion a hoffterau eu plentyn cyn i'w plentyn ddechrau. Mae hyn yn galluogi'r staff i roi'r gofal sydd ei angen ar y plant o'r cychwyn cyntaf. Mae partneriaethau da ac ystyrlon ar waith o fewn y gymuned. Er enghraifft, roedd y plant yn cadw mewn cysylltiad â phreswylwyr o gartref gofal lleol drwy siarad a chanu iddynt yn rhithiol yn ystod y cyfnod clo. Roedd y ddwy ochr yn gwerthfawrogi hyn yn fawr gan y gallai rhai o blant y feithrinfa siarad ag aelodau o'u teuluoedd sy'n derbyn gofal yn y cartref.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Cadw cofnodion ysgrifenedig yn y cofnod damwain o gyswllt â’r rhieni pan fydd eu plentyn yn cael anaf i'r pen.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfiad yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Roedd dau aelod o staff yn gofalu am y plant yn ystod yr arolygiad ar 23 Chwefror 2022; ar yr achlysur hwn, nid oedd gan y naill na'r llall dystysgrif gyfredol ar gyfer cymorth cyntaf pediatrig. | Cyflawnwyd |
| | Rheoliad 16- Adolygiad o ansawdd gofal. | Cyflawnwyd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae’r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 29/04/2022